



COLEG CAMBRIA

COD YMDDYGIAD MYFYRWYR COLEG CAMBRIA

Amcan y Cod hwn yw dangos i chi beth a ddisgwyliwn gan bob myfyriwr ar bob safle'r Coleg, waeth beth yw eu hoed neu eu cwrs. Mae'n berthnasol ar gyfer popeth y mae'r myfyrwyr yn ei wneud, ar y safle ac oddi ar y safle fel ei gilydd, gan gynnwys cludiant y Coleg a gwibdeithiau. Rydym eisiau i bob un o'n myfyrwyr i fwynhau eu cyfnod yn y Coleg, i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac i gyrraedd eu nodau.

Felly, disgwyliwn i chi:

Ddangos parch i bob un y dewch ar eu traws yn y Coleg. Mae hynny'n golygu'r holl staff, yr holl fyfyrwyr eraill ac unrhyw ymwelwyr.

1

Peidio defnyddio unrhyw iaith neu ymddygiad, yn cynnwys poeri, a all dramgwyddo eraill. Mae hyn yn cynnwys safleoedd rhwydweithio cymdeithasol neu mewn negeseuon neu negeseuon ebost.

2

Gwisgo'n briodol i ddod i'r Coleg ac ar gyfer eich cwrs. Cadwch eich hwd i lawr y tu mewn i'r adeiladau os ydych yn gwisgo hwdi a pheidiwch â gwisgo unrhyw beth ar eich pen yn yr ystafelloedd dosbarth, y gweithdai neu'r canolfannau dysgu (oni bai bod hynny am resymau meddygol neu grefyddol).

3

Bod yn y Coleg ar bob diwrnod yr ydych i fod yn bresennol a chyrraedd yn brydlon i'r dosbarthiadau.

4

Gweithio hyd eithaf eich gallu, sicrhau nad yw eich gwaith wedi ei gopïo gan unrhyw un arall, llyfrau neu'r Rhyngwrdd a'i gyflwyno ar amser.

5

Dilyn y canllawiau penodol a roddwyd i chi ar gyfer y cwrs wrth eich Sefydlu.

6

Diffodd eich ffôn symudol (oni bai eich bod wedi cael cyfarwyddyd i'r gwrthwyneb) a pheidio â bwyta nac yfed (ac eithrio dŵr) mewn unrhyw ystafelloedd dosbarth, gweithdai a Chanolfannau Dysgu.

7

8

Defnyddio holl gyfleusterau ac offer y Coleg yn ofalus.

Peidio dod ag alcohol na chyffuriau i'r Coleg, na bod o dan eu dylanwad pan fyddwch yn y Coleg neu'n rhan o weithgareddau allanol, a pheidio ag ysmegu ac eithrio mewn mannau dynodedig.

9

10

Peidio dod a chyllyll, oni bai eu bod yn ofynnol fel rhan o'r offer hanfodol ar gyfer eich cwrs, nag unrhyw beth a allai gael ei ddefnyddio fel arf ymosodol i'r Coleg neu ar gludiant y Coleg.

Peidio ymladd, bod yn ymosodol, bwlio, aflonyddu, bygwth neu ddychryn eraill mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio safleoedd rhyngweithio cymdeithasol, negeseuon ebost, negeseuon testun a galwadau ffôn.

11

12

Dilyn holl reolau eraill y Coleg.